**Eitem ar yr agenda: 3**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Mercher, Gorffennaf 25ain 2007 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y bore.

**Yn bresennol:**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| E C George (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A MacLennan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); S Forrest (Adran y Trysorydd Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid a Chaffael); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); K Hughes (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli Tân); R Fairhead (Rheolwr Cefnogi Tîm Ymgynghorol y Prif Swyddog Tân); S Roberts (Pennaeth yr Adran Rheoli Cyfleusterau) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

**1) Ymddiheuriadau**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

K W Finch Trysorydd i'r Awdurdod

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Cafodd yr aelodau wybod gan y Cadeirydd na dderbyniodd ef na'r Clerc unrhyw eitemau ar gyfer eu hystyried.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Panel ei fod ef a'r Prif Swyddog Tân wedi derbyn llythyrau gan Gadeirydd a Phrif Swyddog Tân Awdurdod Tân ac Achub De Swydd Efrog yn diolch i'r Awdurdod a phersonél y Gwasanaeth o Ogledd Cymru am eu "cymorth amhrisiadwy" gyda'r gwaith cymorth yn dilyn y llifogydd diweddar yn yr ardal. Cost amcangyfrifedig y cymorth ddarparwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru oedd oddeutu £30k ar hyn o bryd. Roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt gydag Awdurdod Tân ac Achub De Swydd Efrog ynglŷn ag ad-dalu'r costau hyn. Fodd bynnag, roedd yn annhebygol y byddai'r ad-daliad yn cael ei dderbyn yn y dyfodol agos gan fod rhaid i Awdurdod Tân ac Achub De Swydd Efrog aros canlyniad ei gais am gymorth o dan Gynllun Bellwin cyn y gallai fod mewn sefyllfa i ad-dalu'r costau.

Cynghorwyd y Panel, yn y cyfamser, fod un aelod o staff o Ogledd Cymru wedi cael ei anfon i ardal Tewkesbury i gadw golwg ar sefyllfa'r llifogydd oedd yn datblygu yn Swydd Gaerloyw a Swydd Rhydychen. Yn ystod y cyfarfod, rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) wybod i'r Panel ei fod wedi derbyn gwybodaeth fod criw o Orsaf Dân Llandudno wedi cael eu hafon i ardal Tewkesbury i helpu gyda'r ymdrechion llifogydd. Roedd yn debygol y byddai'r criw yn cymryd rhan yn yr ymdrech i ddiogelu is-orsaf drydan o'r llifogydd.

Rhoddwyd sicrwydd gan y Prif Swyddog Tân fod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gymwys i ddelio gyda sefyllfaoedd achub dŵr tebyg i'r rhai hynny welwyd mewn rhannau eraill o'r DU. Oherwydd natur anrhagweladwy amodau tywydd eithafol, nid oedd modd rhoi gwarant llawn y gellir delio gyda phob senario phosibl gan y byddai hyn yn dibynnu ar raddfa y digwyddiad tywydd.

## 3) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod y Panel Gweithredol gynhaliwyd ar 21ain Mai 2007

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion***

## 4) Materion yn Codi

Roedd y materion canlynol yn codi o'r cofnodion:

**Tudalennau 2 a 3 'Cynigion ar gyfer y Cynllun Lleihau Risg Drafft 2008/09':** Cynghorwyd yr aelodau y disgwyliwyd derbyn y fersiwn gyhoeddedig at ddiben ymgynghoriad o Gynllun Gweithredu y Cynllun Lleihau Risg Drafft 2008/09 y diwrnod hwnnw. Wedi derbyn y copïau byddent yn cael eu dosbarthu i bawb yr ymgynghorid â hwy, yn cynnwys aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub. Roedd copi o'r ddogfen ymgynghori wedi bod ar gael ar wefan yr Awdurdod yn fuan ar ôl cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 18fed Mehefin 2007. Mewn ateb i gwestiwn gan y Cynghorydd W J Chorlton, cynghorodd swyddogion y Panel fod y broses ymgynghori ar waith eisoes. Yn gynharach yr wythnos honno, roedd rheolwyr canol a goruchwylio wedi derbyn cyflwyniad ar ddarganfyddiadau'r ymgynghorwyr a'r newidiadau dilynol arfaethedig i weithdrefnau rhestru diffoddwyr tân mewn gorsafoedd Llawn Amser a Chriw Dydd. Hefyd, roedd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) wrthi yn ymweld â phob gorsaf llawn amser a chriw dydd i egluro'r cynigion yma i bersonél ac i ateb eu cwestiynau. Rhoddwyd sicrhad i aelodau nad oedd penderfyniad wedi cael ei wneud ar sut byddai 'oriau wrth gefn' yn cael eu defnyddio. Ni fyddai'r penderfyniad yn cael ei wneud nes i'r broses ymgynghori ddirwyn i ben. Cynghorwyd aelodau gan y Clerc i geisio cymorth gan swyddogion os oeddynt yn ansicr o unrhyw ffeithiau pan yn derbyn ymholiad gan bersonél.

## 5) Lleoliad y Peiriannau Deuddiben

Cyn i'r cyfarfod ddechrau, roedd yr aelodau wedi cael cyfle i weld Peiriant Deuddiben, Land Rover a pheiriant tân rheng flaen. Roedd personél o'r Gwasanaeth wedi bod wrth law i ateb cwestiynau'r aelodau wrth iddynt edrych ar y peiriannau.

Ar ddechrau'r eitem fusnes hon, hysbysodd y Cadeirydd y Panel, er fod ganddo ef amheuon am beth o'r data oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad, ni fyddai'n cymryd rhan flaenllaw yn y drafodaeth. Aeth ymlaen i egluro y byddai'n cadw ei hawl i gwestiynu'r wybodaeth ddarparwyd nes cyfarfod yr Awdurdod ym mis Hydref, erbyn hynny byddai wedi derbyn canlyniadau gwaith ymchwil i'r ffeithiau a ffigyrau roedd yn eu cwestiynu oddi wrth gydnabod iddo. Gofynnodd y Clerc pa ffeithiau a ffigyrau oedd yn achosi pryder i'r Cadeirydd er mwyn i swyddogion gael y cyfle i archwilio'r wybodaeth hefyd.

Yna, cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) yr adroddiad a'r atodiadau, a luniwyd ar y cyd ganddo ef a'r Swyddog Monitro (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn dapray'r wybodaeth atodol ofynnwyd amdano gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 18fed Mehefin 2007, fyddai'n galluogi'r Panel Gweithredol i lunio argymhelliad i'r Awdurdod Tân ac Achub mewn perthynas â lleoli'r degfed peiriant deuddiben yng Ngogledd Cymru. Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint a thaflenni (roedd copïau o'r mapiau yn y taflenni wedi eu harddangos yn yr ystafell gyfarfod hefyd), rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) orolwg i aelodau o'r broses oedd wedi ei dilyn i benderfynu ar y lleoliadau mwyaf manteisiol i leoli'r peiriannau deuddiben er mwyn cyflawni'r lefel optimwm o wasanaeth ar draws ardal Gogledd Cymru o fewn 30 munud o gael eu hanfon allan. Yr offer

dadansoddi a ddefnyddiwyd ar gyfer y broses hon oedd Model FSEC, dyma'r offer dadansoddi a ffafriwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ac Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU. Eglurodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod Tân ac Achub ar 18fed Mehefin 2007, ailedrychwyd ar y data oedd yn berthnasol i ardaloedd Abermaw a Dolgellau i sicrhau ei gadernid. Sicrhawyd yr aelodau fod manylion y boblogaeth, gymerwyd o Gyfrifiad 2001 y DU, yn rhan hanfodol o'r broses ymgymerwyd â hi. Yn ychwanegol i ddata'r boblogaeth, roedd y Model FSEC, oedd wedi cymryd dros 18 mis i'w datblygu, hefyd yn cynnwys, ymysg data arall, gwybodaeth mapio'r Arolwg Ordnans, cyflymderau cerbydau yn seiliedig ar ddosbarthiad y ffyrdd a gwybodaeth rhwydwaith ffyrdd gyfredol fel a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd yr olaf yn rhoi ystyriaeth i'r holl broblemau adeiledd tymor hir oedd yn wybyddus, megis pontydd gwan ac ardaloedd o fynediad cul.

Aeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ymlaen i fanylu'r wybodaeth yn yr adroddiad a'r atodiadau cysylltiedig. Er mwyn sicrhau'r aelodau fod y cynnig gwreiddiol i leoli'r peiriant deuddiben yn Nolgellau yn seiliedig ar dystiolaeth oedd wedi ei hymchwilio'n drwyadl, dangosodd fap i aelodau oedd yn manylu'r ardal gyfan y gallai peiriannau deuddiben o Abermaw, Dolgellau a Phorthmadog eu cyrraedd o fewn 30 munud. Drwy leoli peiriant deuddiben yn Nolgellau a Phorthmadog, gallai'r Gwasanaeth gyrraedd y mwyafrif o'r ardal y gallai peiriant wedi'i leoli'n Abermaw gyrraedd o fewn yr amser mynychu o 30 munud.

Fe atgoffodd y Cynghorydd J Vaughan yr aelodau ei bod hi'n bwysig nodi mai prif bwrpas y peiriant deuddiben oedd i helpu wrth ymladd tanau glaswellt ac eithin ac y byddai gan pob gorsaf oedd yn cartrefu peiriant deuddiben beiriant tân rheng flaen hefyd. Pwysleisiodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) er fod gan beiriannau deuddiben y gallu i ddelio gyda tanau bychan mewn tai, byddai peiriant rheng flaen bob amser yn cael ei anfon allan i'r mathau yma o ddigwyddiadau.

Mynegodd y Cynghorydd E Morgan Jones ei bryder am y ffeithiau'n ymwneud â'r nifer o gartrefi ddangoswyd mewn ardal yr oedd ef yn gyfarwydd â hi ar y map yn Atodiad 2 i'r adroddiad. Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân nad oedd meysydd carafannau yn cael eu hystyried fel safleoedd o risg uchel, yn bennaf oherwydd fod y gofynion cofrestru ar gyfer y mathau yma o safleoedd yn cael eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth gadarn. Mewn perthynas â doethineb defnyddio ffigyrau Cyfrifiad 2001 fel sail i ffigyrau'r boblogaeth presennol, a'r ffaith nad oedd y ffigyrau yma'n cymryd i ystyriaeth y cynnydd tymhorol yn y boblogaeth yn yr ardal benodol yma o Ogledd Cymru, fe gynghorodd swyddogion fod y mwyafrif o gyrff cyhoeddus a sefydliadau yn seilio ffigyrau'r boblogaeth ar ddata o'r Cyfrifiad mwyaf diweddar gan y derbynnir yn gyffredinol mai'r wybodaeth yma yw'r mwyaf dibynnol sydd ar gael. Hefyd, hyd y gwyddai'r swyddogion, nid oedd methodoleg dadansoddol ar gael oedd yn cymryd i ystyriaeth symudiad poblogaeth dros dro.

Nododd yr Is-Gadeirydd ei siomedigaeth fod y Swyddog Monitro wedi dewis cynnwys ei gyngor i'r Panel yng nghorff yr adroddiad yn hytrach na'i gyfathrebu ar lafar yn y cyfarfod. Yn ei farn ef roedd hyn wedi tynnu sylw'r Wasg at y mater. Roedd aelod arall yn cyd-fynd â'r farn hon. Gan ymateb i'r pwynt yma, fe gynghorodd y Clerc yr aelodau mai ei brif ddyletswydd fel Swyddog Monitro oedd i ddiogelu diddordebau'r Awdurdod. Cytunodd bod cyngor ar lafar yn ddigonol yn y mwyafrif o achosion, ond ar achlysuron eraill, roedd amgylchiadau yn gofyn am gynnwys y cyngor yn yr adroddiad ei hunan. Wedi rhoi ystyriaeth ofalus i amgylchiadau'r achos hwn, yn enwedig y pwys a roddwyd i gynrychioliad wnaed mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ac nad oedd wedi cael ei dderbyn am amser sylweddol ar ôl dyddiad cau y cyfnod ymgynghori, roedd y Swyddog Monitro wedi dod i'r casgliad fod pwysigrwydd y cyngor yr oedd eisiau ei rannu gyda'r aelodau yn gwarantu ei gynnwys yn yr adroddiad ei hunan er mwyn eu rhybuddio o'r peryglon y gallai'r Awdurdod ei wynebu os fyddai llwybr penodol o weithredu yn cael ei ddilyn. Os na fyddai'n tynnu sylw'r aelodau i'r fath faterion, byddai'n methu yn ei ddyletswyddau i'r Awdurdod. Penderfyniad yr aelodau oedd i dderbyn ei gyngor ai peidio.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Is-Gadeirydd os y gallai un o'r fflyd gyfredol o Land Rovers gael ei gadw yn Abermaw, neu a ellid rhoi peiriant sy'n weddill yno fel peiriant cefnogi, fe gynghorodd swyddogion fod y Land Rovers yn nesau at ddiwedd eu bywyd gweithredol ac nad oedd y Gwasanaeth mewn meddiant o unrhyw beiriannau oedd yn weddill.

Yn dilyn trafodaeth fanwl, fe gynigiodd y Cynghorydd W J Chorlton, yn seiliedig ar y dystiolaeth ddarparwyd, fod y Panel, yn ei gyfarfod ar 15fed Hydref 2007, yn argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub leoli ei ddegfed peiriant deuddiben yn Nolgellau. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd E F Evans. Cynigiodd yr Is-Gadeirydd welliant i'r cynnig, sef fod y Panel Gweithredol yn cymeradwyo Dolgellau fel y lleoliad i'r degfed peiriant deuddiben, ond y byddai peiriant oedd yn weddill yn cael ei leoli yn Abermaw fel peiriant cefnogi. Eiliwyd y gwelliant gan y Cynghorydd E Morgan Jones. Pleidleisiwyd ar y gwelliant yn gyntaf, ac fe'i collwyd. Yna pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol ac fe'i pasiwyd gyda mwyafrif. Felly:

***<u>Penderfynwyd:</u> - yn seiliedig ar y wybodaeth yn yr adroddiad a'i atodiadau cysylltiedig, argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 15fed Hydref 2007, gymeradwyo i'r degfed peiriant deuddiben gael ei leoli yng ngorsaf dân Dolgellau.***

Ataliodd y Cadeirydd ei bleidlais ar y gwelliant a'r cynnig gwreiddiol.

## 6) Rhagolygon ar gyfer Cyllideb 2008/09

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn rhoi arwydd cynnar i aelodau o'r pwysau

cyllid hysbys ar gyfer 2008/09 a thu hwnt fel y gofynnwyd amdano. Fe eglurodd nad oedd yn bosib mesur yr holl bwysau mor gynnar â hyn, ond, lle'r oedd yn bosib, roedd y pwysau disgwyliedig wedi cael eu cynnwys er mwyn rhoi arwydd cynnar i aelodau o'r pwysau oedd i ddod yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf ac i'w cynorthwyo gyda'r broses gynllunio strategol. Yna, aeth y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ymlaen i fanylu cynnwys ei hadroddiad. Eglurodd nad oedd y rhestr pwysau ariannol, oedd yn ymddangos ym mharagraff 7 o'i hadroddiad, yn gyflawn o bell ffordd. Dylid nodi hefyd fod yr holl bwysau a restrid, ag eithrio'r cynnydd mewn gwaith diogelwch cymunedol, yn bwysau allanol roddwyd ar awdurdodau tân ac achub gan un ai ofynion deddfwriaethol neu gyfarwyddiadau llywodraeth ganolog.

Nid oedd arian wedi cael ei gadw naill ochr yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol i ariannu cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer staff y System Dyletswydd Rhan Amser oedd wedi dewis ymuno â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Gan fod 120 o staff y System Dyletswydd Rhan Amser wedi dewis ymuno â'r Cynllun, byddai angen dod o hyd i £148k o fewn cyllideb eleni i ariannu cyfraniadau'r cyflogwr. Amcangyfrifwyd y byddai angen £50k ychwanegol yn 2008/09 i ariannu y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dilyn ailwerthuso'r Cynllun yn ystod hydref 2007.

Roedd awdurdodau tân ac achub yn dal i aros am gyhoeddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn ag arian atodol ar gyfer y Prosiect Radio 'Firelink', gwaith cydnerth i'r Ystafelloedd Rheoli a chostau cynnal a chadw yn y dyfodol i asedion ac offer y Dimensiwn Newydd. Roedd y pwnc olaf wedi cael ei godi gan y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân yn ystod cyfarfod diweddar gyda Mr Andrew Davies AC, y Gweinidog yn Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd â'r cyfrifoldeb bryd hynny am y gwasanaethau tân ac achub. Fe hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr aelodau fod y tri awdurdod tân ac achub Cymreig a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fforio, fel mesur wrth gefn, yr opsiwn o ddefnyddio ystafelloedd rheoli'r naill a'r llall fel ystafelloedd rheoli wrth gefn os byddai ystafell reoli yn methu mewn un neu ddwy o ardaloedd eraill y Gwasanaeth.

Roedd y cynnydd mewn gwaith diogelwch cymunedol, oedd yn deillio o argymhellion adroddiad Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân i'r nifer uchel o farwolaethau'n gysylltiedig â thân yng Ngogledd Cymru, yn y pendraw yn mynd i gael ei ariannu o effeithlonrwydd o fewn y Gwasanaeth. Yn anffodus, byddai'r enillion effeithlonrwydd yma'n cymryd oddeutu 2 flynedd i'w sylweddoli. Felly, yn y cyfamser, a chyda'r bwriad o drosglwyddo'r cynigion oedd yr Awdurdod wedi cynnwys yn ei Gynllun Gweithredu drafft y Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2008/09, byddai angen darganfod £750k yn ychwanegol yn y flwyddyn ariannol nesaf i wireddu'r cynnig hwn.

12.10pm Gadawodd y Cynghorydd W T Owen y cyfarfod yn y man hwn.

Mewn ymateb i gwestiynau, fe gynghorodd swyddogion fod cymhlethdod cyfreithiau cyflogaeth a materion adnoddau dynol, yn enwedig o dan yr

agenda foderneiddio, yn gofyn fod cyngor cyfreithiol arbenigol yn cael ei geisio'n amlach nawr. Yn anorfod roedd hyn yn golygu gwariant ychwanegol. Oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, roedd pob swydd a ddeuai'n wag yn awr yn cael ei chyfeirio at y Prif Swyddog Tân am ganiatâd i recriwtio. Gwnaeth aelodau gais fod adroddiadau dilynol yn cynnwys manylion effeithlonrwydd y gellid eu cyflawni gyda'r bwriad o liniaru pwysau cyllidebol:

***Penderfynwyd:*** ***-***

***i. nodi pwysau costau fel a restrid yn yr adroddiad a'r effaith ddilynol ar y gyllideb dros dro fel a nodwyd ym mharagraff 5 o'r adroddiad; a***
***ii. bod yr adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys manylion o arbedion effeithlonrwydd y gellid eu cyflawni i'r diben o wrthbwyso pwysau cyllidebol hysbys.***

**7) Cyflwyniad ar Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol – Gosod Taenellwyr Domestig**

Fe gyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr eitem fusnes hon gan hysbysu'r Panel fod Mrs Ann Jones AC wedi bod yn llwyddiannus yn ddiweddar mewn pleidlais yn gysylltiedig â Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) yn y Cynulliad. Aeth ymlaen i egluro fod Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn fecanwaith newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 lle gallai'r Cynulliad ofyn am bwerau deddfwriaethol gan Senedd y DU mewn meysydd penodol lle'r oedd cyfrifoldebau dros y swyddogaethau hynny eisoes wedi eu datganoli. Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân orolwg byr i'r Panel ar y broses LCO gan hysbysu'r aelodau mai pwnc LCO Mrs Jones oedd diwygiad i Ddeddf Tai 2004 fyddai'n gwneud gosod systemau taenellu awtomatig yn orfodol mewn eiddo domestig newydd yng Nghymru o 2010 ymlaen. Hysbyswyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Tân fod prif swyddogion y tri gwasanaeth tân ac achub Cymreig, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill, wedi cytuno i gefnogi cynnig Mrs Jones. Roeddynt oll wedi cytuno i weithio gyda hi i gyflawni ei nod, gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cymryd y blaen o ran ei chynghori hi ar y mater o safbwynt y Gwasaneth. Er mwyn sicrhau'r diwygiad, byddai angen gwaith sylweddol cyn i'r diwygiad gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 16eg Hydref 2007. Felly, roedd Mrs Jones wedi cael gwahoddiad i annerch Gweithgor yr Hyrwyddwyr yn eu cyfarfod nesaf ar 7fed Medi. Roedd Diwrnod i'r Wasg wedi cael ei drefnu yng ngorsaf dân Llanelwy ar 13eg Medi 2007 i amlygu a hyrwyddo'r diwygiad arfaethedig. Os fyddai'r diwygiad yn cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn, byddai'n cael ei gyflwyno i Ysgrifennydd Gwladol Cymru a fyddai'n ei osod o flaen y ddau Dŷ yn San Steffan ac, os fyddai'n derbyn eu cymeradwyaeth hwy, byddai'r pwerau yn cael eu trosglwyddo trwy Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor.

12.25pm Gadawodd y Cynghorydd W J Chorlton y cyfarfod yn y man hwn.

***Penderfynwyd:*** ***- nodi'r wybodaeth ddarparwyd a chefnogi'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ynghylch Diogelwch Tân yn y Cartref .***

12.30pm: Gadawodd y Cadeirydd, y Cynghorwyr J Vaughan a M Williams y cyfarfod yn y man hwn ac fe gymrodd yr Is-Gadeirydd y gadair am weddill y cyfarfod.

**8) Adolygiad o'r Penodiadau Statudol a Chytundebau Lefel Gwasanaeth**

Atgoffodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) yr aelodau fod yr Awdurdod Tân ac Achub, yn ei gyfarfod ar 18fed Mehefin 2007, wedi dirprwyo'r dasg o ymgymryd ag adolygiad o'r penodiadau statudol o Swyddog Monitro a Thrysorydd i'r Awdurdod Tân ac Achub a'r cytundebau lefel gwasanaeth i'r ddarpariaeth o wasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, oedd i ddod i ben ar 31ain Mawrth 2008, i'r Panel Gweithredol. Fe amlinellodd y broses a ddilynwyd y tro diwethaf i'r penodiadau a'r trefniadau gael eu hadolygu.

***Penderfynwyd:*** ***-***

- ***i. y dylai'r Prif Swyddog Tân geisio mynegiadau o ddiddordeb gan unigolion ac awdurdodau oedd â diddordeb ymgymryd â'r rolau statudol o Drysorydd a Swyddog Monitro i'r Awdurdod, ac am y ddarpariaeth o gyngor cyfreithiol a gwasanaethau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân i'r Awdurdod; ac***
- ***ii. yn dilyn yr ymarfer hwn, cyflwyno adroddiad i'r Panel Gweithredol, yn ei gyfarfod cyn cyfarfod mis Rhagfyr o'r Awdurdod Tân ac Achub, yn manylu ei argymhellion mewn perthynas â'r penodiadau statudol a'r darpariaethau am wasanaethau o dan gytundebau lefel gwasanaeth o Ebrill 2008 ymlaen.***

**9) Monitro Perfformiad**

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn darparu gwybodaeth i'r aelodau am berfformiad y Gwasanaeth yn erbyn yr amrywiol ddangosyddion perfformiad gosodedig yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn adrodd 2007/08. Roedd y wybodaeth yn yr adroddiad yn gysylltiedig â'r cyfnod rhwng 1af Ebrill a 30ain Mehefin 2007. Tynnodd sylw'r aelodau at nifer o feysydd restrwyd yn yr adroddiad. Roedd y rhain yn cynnwys yr ystadegau oedd yn gysylltiedig â'r nifer o larymau mwg oedd wedi eu gosod ac oedd wedi canu mewn achos o dân, oedd yn galonogol iawn ac yn ddangosydd cynnar fod yr Awdurdod, a'r cyhoedd, yn dechrau gweld y buddion o'r gwaith diogelwch tân cymunedol ychwanegol oedd wedi ei wneud. Roedd hefyd yn galonogol adrodd, hyd yn hyn eleni, nad oedd yr un bywyd wedi cael ei golli mewn tân damweiniol yn y cartref yng Ngogledd Cymru. Er fod nifer yr anafiadau mewn tanau yn y cartref yn dangos cynnydd ar ffigyrau'r flwyddyn flaenorol, roedd y ffigyrau'n debyg i rhai am yr un cyfnod yn 2005/06. Roedd yn siomedig adrodd fod nifer y tanau damweiniol yn y cartref wedi cynyddu ychydig o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Roedd y

nifer o danau eilaidd bwriadol yn achos pryder gan fod y ffigyrau'n dangos cynnydd o 10% o'i gymharu â ffigwr y flwyddyn flaenorol. Roedd y ffigyrau hefyd yn dangos fod patrwm yn dechrau amlygu ei hun, sef fod y mathau yma o ddigwyddiadau yn cyrraedd uchafbwynt ar gylchred pedwar mis, gallai hyn awgrymu bodolaeth ffactor gyfrannol sylfaenol. Er, yn galonogol, fod y ffigyrau am y nifer o larymau diangen maleisus dderbyniwyd, mynychwyd ac nis mynychwyd yn dangos gostyngiad, roedd yn dal yn siomedig nodi fod y nifer o larymau diangen o larymau tân awtomatig mewn eiddo domestig ac annomestig yn parhau i gynyddu. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd J A Smith ar sut oedd swyddogion yn symud ymlaen yn eu trafodaethau gyda staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) gyda'r bwriad o ostwng y nifer o larymau diangen o systemau larwm tân awtomatig mewn sefydliadau iechyd, fe hysbysodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) yr aelodau fod y Gweithgor, oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth, GIG a sefydliadau addysgiadol, yn disgwyl cyhoeddi polisi i'r Gwasanaeth am gymeradwyaeth cyn ddiwedd Medi. Byddai'r polisi yma'n amlinellu sut fyddai'r sefydliadau yma'n gostwng y nifer o larymau diangen o larymau tân awtomatig i bwynt, lle, os fyddai systemau yn parhau i ganu'n ddiangen, byddai rhaid dilyn y caniad larwm gyda galwad 999 i gadarnhau'r tân.

Roedd yn galonogol hefyd adrodd fod y lefel o absenoldebau salwch yn gostwng yn gyffredinol a bod y nifer o anfonebau diddadl a dalwyd o fewn 30 diwrnod yn cynyddu.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.***

## 10) Estyniadau i Dâl Salwch

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn hysbysu'r aelodau am y penderfyniadau a gymerwyd gan y Prif Swyddog Tân, yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd, mewn perthynas a chaniatáu estyniadau o dâl salwch.

***<u>Penderfynwyd:</u> - nodi'r adroddiad***

## 11) Materion Brys

Dim.

## 12) Dyddiad(au) cyfarfodydd yn y dyfodol

Gan fod nifer o aelodau wedi gadael y cyfarfod, penderfynwyd y dylai y Swyddog Cyswllt Aelodau ymgynghori gyda'r Cadeirydd a'r Prif Swyddogion i drefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Panel Gweithredol a hysbysu pawb yn unol â hynny.

Hysbysodd Cadeirydd y cyfarfod yr aelodau yr argymhellid i'r eitem fusnes oedd yn weddill ar agenda'r cyfarfod gael ei thrafod heb y cyhoedd na'r Wasg yn bresennol.

***<u>Penderfynwyd</u>: - yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu eithrio o'r cyfarfod tra yr ystyrid yr eitem busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Rhan 1 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 yn cael ei datgelu iddynt.***

**<u>RHAN II</u>**

Roedd yr adroddiad gyflwynwyd o dan Ran II wedi ei eithrio rhag datgeliad o dan baragraff 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**13) Y Diweddaraf ar Brosiectau Cyfalaf**

Cyn cychwyn yr eitem fusnes hon, atgoffodd y Clerc y cynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam o'r angen iddynt ddatgelu diddordeb yn yr eitem yma o fusnes oherwydd y wybodaeth oedd yn gynwysedig yn yr adroddiad ynglŷn â'r cynnig i adleoli gorsaf dân Wrecsam. Cynghorwyd hwy eu bod yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth ar y mater, ond na ddylent gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais ar y mater. Datganodd y Cynghorydd E C George ddiddordeb yn y mater.

Yna, aeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) ymlaen i gyflwyno ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn diweddaru'r aelodau ar raglen gyfalaf yr Adran Rheoli Cyfleusterau. Manylodd ar wahanol agweddau o'r Rhaglen Gyfalaf cyn i Bennaeth yr Adran Rheoli Cyfleusterau roi briff i'r aelodau ar ddatblygiadau diweddar yn ymwneud â'r cynlluniau ar gyfer yr orsaf dân a Swyddfa Ddiogelwch y Sir yn Llangefni.

***<u>Penderfynwyd:</u>- nodi cynnwys yr adroddiad***

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45 y prynhawn.